**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**

**7 AWST 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 7 Awst 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)** |
| Y Cynghorwyr: | Tina Claydon, David Coggins Cogan, Gladys Healey, Ian Hodge, Alasdair Ibbotson, Allan Marshall, Billy Mullin, Jason Shallcross |
| Dirprwyon: | Y Cynghorwyr: Helen Brown (ar ran Bill Crease), Geoff Collett (ar ran Vicky Perfect) a Ryan McKeown (ar ran Gina Maddison) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, Carolyn Preece, Dan Rose a Sam Swash (yn bresennol fel llofnodwyr i Alw i Mewn nid ar y Pwyllgor)<br><br>Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Marion Bateman, Mared Eastwood, Chrissy Gee, David Healey a Debbie Owen (fel arsylwyr) |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes, Rheolwr Cyllid Strategol a Rheolwr Safonau Masnach |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm |

## 24. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 25. YSTYRIED MATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR YN UNOL Â'R TREFNIADAU GALW I MEWN

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod y Cabinet wedi ystyried adroddiad ar yr 'Adolygiad Blynyddol o Ffioedd a Thaliadau 2024' yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2024. Roedd y penderfyniad (Cofnod o Benderfyniad 4243) wedi cael ei alw i mewn fel y dengys yn yr Hysbysiad Galw i Mewn ar y rhaglen.

Roedd copïau o adroddiad y Cabinet, Cofnod o'r Penderfyniad a Chymeradwyo Galw i Mewn wedi'u cynnwys ym mhecyn y rhaglen.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o'r drefn ar gyfer galw Penderfyniad Cabinet i mewn fel y manylwyd yn y ddogfen ategol a oedd

wedi'i chynnwys yn y rhaglen.

Gwahoddodd y Cadeirydd y llofnodwyr i gyflwyno'r rhesymau dros y galw i mewn i'r Pwyllgor.

**26. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O FFIOEDD A THALIADAU 2024 (Dolen i'r recordiad)**

Sylwadau gan y rhai a lofnododd y cais galw i mewn

Ar ran y pum llofnodwr, amlinellodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson y rhesymau dros Alw i Mewn, gan ehangu ar y rhesymau a amlinellwyd yn y rhaglen.

Ymatebion gan y Penderfynwyr

Ar ran yr Aelod Cabinet Cyllid a oedd yn absennol, ymatebodd y Cynghorydd Christine Jones i'r pryderon a fynegwyd gan y rhai a lofnododd y cais Galw i Mewn.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau i'r Penderfynwyr a'r llofnodwyr Galw i Mewn.

Yn ystod y drafodaeth, rhoddodd swyddogion eglurhad ynglŷn â'r camosod yn yr atodlen gan gytuno i ystyried ailfformatio i wahanu ffioedd a thaliadau statudol ac yn ôl disgresiwn, ac eithrio TAW.

Pan wahoddwyd y Cynghorydd Ibbotson i grynhoi ar ran y llofnodwyr Galw i Mewn, croesawodd yr awgrymiadau a wnaed gan swyddogion ac eiliodd y cynnig a wnaed gan y Cynghorydd Gladys Healey ar gyfer Opsiwn 3.

Wrth ymateb i'r sylwadau, cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i gysylltu â'r Prif Swyddog (Llywodraethu) ynglŷn â'r awgrym am adolygiad o'r cynllun Dirprwyo Grymoedd.

Cafodd y Cynghorydd Christine Jones hefyd gyfle i grynhoi.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd atgoffa'r Aelodau o'r opsiynau ar gyfer gwneud penderfyniad fel y manylwyd yn eitem 3 ar y rhaglen.

Cafwyd pleidlais a chefnogwyd Opsiwn 3.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried y penderfyniad, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus amdano ac yn ei gyfeirio'n ôl i'r corff sy'n gwneud penderfyniad er mwyn ei ailystyried.  Yna, bydd y penderfynwr yn ailystyried, yn y cyfarfod cynharaf posibl, ac yn diwygio'r penderfyniad neu beidio, cyn mabwysiadu penderfyniad terfynol.

**27. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3.15pm)

**Y Cadeirydd**

………………………………………………….

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home